Annwyl Rieni/Warchodwr,

Dyma grynodeb o'r gwaith bydd eich plentyn yn gwneud yn ystod y tymor nesaf,

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

Bydd eich plentyn yn datblygu geirfa gynyddol ac yn dysgu sut i ddefnyddio cystrawen gywir y Gymraeg trwy sesiynau drilio, gwaith grŵp a phartner, drama a thrafodaethau dosbarth. Rydym yn annog ethos darllen er mwyn pleser - gyda ffocws ar ddatblygu ymwybyddiaeth ffonetig, rhuglder, a dealltwriaeth o destunau syml. Bydd eich plentyn yn archwilio sut mae ieithoedd yn ein cysylltu ac yn datblygu ei ymwybyddiaeth o ieithoedd rhyngwladol. Datblygir sgiliau ysgrifennu trwy ystod o genrau gyda ffocws ar ffoneg/patrymau sillafu, atalnodi syml ac ar ddatblygu annibyniaeth gynyddol.
*Am ragor o wybodaeth gweler y Fframwaith Llythrennedd ar wefan yr ysgol.*

**Mathemateg**

Rhif yw ein prif yrrwr ac mae'r sgiliau yma yn cael eu ymarfer yn gyson trwy brofiadau dysgu bywyd go iawn o fewn cyd-destunau megis mesur, defnyddio data, arian, algebra a geometreg. Rydym yn defnyddio llawer o offer ac adnoddau ymarferol a dulliau lluniadol er mwyn dyfnhau dealltwriaeth y plant cyn symud ymlaen at dduliau ysgrifenedig. Nid cael yr ateb yn gywir un unig sy'n bwysig – rydym yn annog y plant i drafod eu gwaith, egluro beth wyddant neu beth helpodd.
*Am wybodaeth pellach, gwelwch y fframwaith rhifedd ar wefan yr Ysgol.*

**Thema**

Ein thema'r tymor yma yw 'Newid'. Byddwn yn trafod deunyddiau gan enwi a dosbarthu - plastig, pren, mhetal, gwydr, papur, defnydd a charreg. Byddwn ni'n trafod deunyddiau naturiol (gwlân, glo, tywod) ac esbonio ble maent yn dod.
Byddwn yn edrych ar ddisgrifio'r deunyddiau ac edrych mewn i addasrwydd deunydd at bwrpas wrth ddefnyddio geirfa addas. Byddwn yn arbrofi gyda deunyddiau gwrth-ddŵr ac amsugnol i arsylwi'r newid sydd yn digwydd.
Byddwn yn cymysgu lliwiau cynradd i weld sut maen nhw'n newid ac efelychu gwaith Nessa Dee.

**Byddwn yn gweithio ar garreg droedio addas i bob unigolyn wrth astudio'r thema yma.**

**Iechyd a Lles:-**

Yn ystod sesiynau ymarfer corff, byddwn yn astudio gemau ac yn dysgu sgiliau penodol, gan ystyried yr effaith mae ymarfer corff yn cael ar ein cyrff a'n iechyd meddwl.
Themau Jigso y tymor yma yw: Breuddwydion a Dyhaeadau a Byw'n iach.

**Dosbarth:Dwynwen**

**Blwyddyn: 1/2**

**Pethau i'w Cofio**

Llyfrau darllen adref Dydd Gwener ac yn ôl ar Ddydd Llun gyda chofnod.
Cit ymarfer corff ar Ddydd Mercher
Dillad coedlan bob yn ail Dydd Iau
Defnyddio Trydar (X) er mwyn rhannu gwaith neu lwyddiannau @penalltau





www.ysgolpenalltau.com ysgolpenalltau@sch.caerphilly.gov.uk @penalltau 01443 862974